

CATRIN LLIAR JONES
Sandra
UN DYN AR Y TRO

# PENNOD 1

# EIDDO COLL

**Diwedd Haf 2024**

Roedd y diwrnod 'di bod yn fastad a hithau wedi hario. Diolch i'r drefn ei fod o bron ar ben.

Troellodd y botwm i dawelu'r golau fymryn, a rhoi fflam i'r gannwyll lafant yn y ffenest. Edrychodd allan, roedd hi'n nosi. Sylwodd ar weddillion cringoch y machlud yn gwthio rhwng y dail gyferbyn â'r tŷ. Braf oedd cwmni coed yn hytrach na ffenestri, meddyliodd. Braf oedd peidio gorfod cau'r llenni ar fusnesgarwch cymdogion. A hithau eisoes yn destun sgwrs yn y gymuned, roedd absenoldeb cynulleidfa yn rhyddhad.

Edrychodd o'i chwmpas wrth ddarllen y 'rhestr gneud' yn ei phen: tacluso tŷ, tacluso bywyd. Mi ddeuai popeth yn iawn yn ei dro.

Roedd llinell hirsgwar o lwch mân ar y wal o gwmpas yr hoelen lle bu Ganesh yn hongian, megis hanner awr ynghynt.

Tynnodd ei bys ar ei hyd i gael gwared arno, ond roedd o'n styfnig. Roedd saim ffrio Pakora wedi crwydro ar yr aer o'r gegin ac wedi gludo'r llwch i'r wal yn y stafell wely. Mewn tai mor fychan â hyn, roedd pob ystafell yn rhannu ei gynnwys. Byddai angen cadach a bôn braich i'w lanhau, ond nid rŵan. Oedodd. Ochneidiodd. Hoelen wag, gwely gwag. Unwaith eto, meddyliodd, a rholio ei llygaid ar ei blerwch ei hun. Hulpan.

Gan ystyried pa mor bell yr oedd hi o'i choed, synnodd cyn lleied o amser y cymrodd hi i daflu ei bethau fo i fagiau du, a rhoi'r cwbl o'r golwg yn y sied.

Yn ogystal â llun Ganesh, dim ond pedwar eitem o'i eiddo oedd bellach ar ôl yn y tŷ:

- Ar y cwpwrdd ger y gwely: clustffonau newydd sbon yn eu pecyn, ac eli dwylo L'Occitane Shea Butter.
- Yn y stafell fyw: CD *A Meeting by the River* gan Ry Cooder a Vishwa Mohan Bhatt. (Gwenodd. Ger afon wnaethon nhw gyfarfod hefyd.)
- Yn y gegin: pâr o sanau Jaeger streipiog, meddal, moethus.

Gollyngodd y cyfan i fag rhewgell mawr. Sipiodd y bag ar gau, a'i farcio efo DEEPESH mewn du tragwyddol. Yna rhoddodd y bag yn y bocs 'eiddo coll' o dan y gwely, ar ben y bag wedi'i farcio â 'Chris', gan wthio'r cyfan yn ôl i'r tywyllwch.

Roedd hi'n anodd rhagweld sut olwg fyddai ar bethau pan fyddai perthynas yn dod i ben, a pha mor drefnus fyddai'r ceiliog wrth adael y nyth. Gadawodd rhai o'i chyn-wŷr yn flin ac ar hast, a rhai yn dawel a thaclus.

Os byddai'r gwahaniad yn dymhestlog, roedd hi'n gwybod y byddai peth eiddo'n cael ei adael ar ôl ar hap. Ar yr adegau hynny, byddai'n crwydro'r tŷ yn eu casglu, a'i phen yn ei phlu.

Ond ei hoff fath o wahanu oedd pan oedd pwyll a threfn. Bryd hynny, byddai'n crwydro'r tŷ yn slei bach, yn dewis a chuddio pa eitemau oedd am gael eu gadael ar ôl gan y rhai oedd ar fin ei gadael hi. Roedd pleser plentynnaidd yn y weithred honno.

Pethau hapus oedden nhw wastad, pethau oedd yn adlewyrchu'r gorau o'r berthynas a fu. Pethau oedd hefyd yn dystiolaeth glir fod y cariad wedi bodoli. Y rheiny oedd y pethau roedd hi'n edrych arnyn nhw amlaf. Y rheiny oedd y pethau roedd hi weithiau'n eu mwytho, eu harogli, a'u gwasgu'n dynn at ei brest, er gwaetha'r chwerwder.

Doedd hi byth yn dychwelyd unrhyw beth at ei berchennog, rhag iddi gael ei gweld fel rhywun oedd chydig yn rhy *clingy*. Rhywun oedd yn methu gollwng gafael. Hyd yn oed wedi i friwsion ola'r cariad ddiflannu a chariad newydd ymddangos, arhosai bopeth yn eu bagiau yn y bocs 'eiddo coll' o dan y gwely.

Roedd hefyd, wrth gwrs, yn bwysig iddi fod ganddi dystiolaeth, yn enwedig pan fyddai yng nghwmni ei hiselder. Pan oedd y geiriau 'pwy fysa isio chdi beth bynnag' yn gwneud ei phen yn drwm. Yn yr eiliadau hynny, gallai estyn am yr eiddo coll, a phrofi iddi hi ei hun bod pob un o'i chyn-wŷr, ar ryw adeg neu'i gilydd, wedi gwneud y penderfyniad ei bod hi'n ddigon.

Ond heddiw, cafodd drws arall ei gau yn ei hwyneb. Unwaith eto, roedd hi'n ail law, yn *pre-loved*.

bwthyn

GWASG Y BWTHYN